



Ysgol Gynradd Gymraeg Y Castell

Adroddiad Blynyddol Y Llywodraethwyr i'r Rhieni

2020-2021



I'w gyflwyno ar wefan yr ysgol
22^{ain} o Hydref 2021.

Copi papur ar gael ar gais trwy swyddfa'r ysgol.

Cerddwn ymlaen â ffydd yn ein cân.



Cynnwys

Tudalen

2. Cynnwys
3. Cyflwyniad gan Gadeirydd y Llywodraethwyr
4. Gweithgareddau'r Disgyblion
10. Gwaith y Llywodraethwyr
11. Cynllun Datblygu Ysgol
15. Datganiad Cyllidol
16. Tymhorau Ysgol a Gwyliau 2021/2022
17. Anghenion Dysgu Ychwanegol
19. Y Corff Llywodraethol
20. Manylion Cysylltu



Cerddwn ymlaen â ffydd yn ein cân



Cyflwyniad gan Gadeirydd y Llywodraethwyr

Annwyl Rieni a Gwarchodwyr,

Croeso i Adroddiad Blynyddol Ysgol y Castell ar gyfer y flwyddyn academaidd Medi 2020 i Orffennaf 2021.

Rydych i gyd yn ymwybodol o ba mor heriol oedd diwedd y flwyddyn academaidd 2019/2020, gyda'r ysgol yn cau, dysgu o bell yn cael ei gyflwyno, a disgyblion a staff yn gorfod hunanynysu. Parhaodd llawer o heriau yn ystod y flwyddyn academaidd hon, ond gyda phawb o deulu'r ysgol yn cyd-dynnu llwyddodd yr ysgol i ddarparu addysg a gofal o safon uchel i bob plentyn. Unwaith eto, rwyf am estyn fy niolchiadau i'r holl staff, disgyblion, rhieni, gwarcheidwaid a llywodraethwyr am weithio'n agos ac yn bragmatig gyda'n gilydd yn ystod amseroedd heriol.

Dros y flwyddyn bu nifer o ymwelwyr â'r ysgol, rhai yn ymweld a'r safle a rhai yn ymuno rhithiol dros Teams. Llwyddodd y disgyblion i fynd ar deithiau a chael nifer o brofiadau rhithiol. Bu gwaith adeiladu yn parhau ar y safle i uwchraddio'r adeiladau a daeth pawb yn fwy medrus wrth weithio o bell ac o fewn canllawiau diogel Covid.

Mae blaenoriaethau parhaus yn cynnwys lles plant a cheisio cysoni ac ail-sefydlu arfer rhagorol yr ysgol wrth ymateb i heriau y deunaw mis diwethaf.

Diolch i chi am gymryd yr amser i ddarllen yr adroddiad hwn ac am gefnogi ein hysgol.

Yn gywir,

Gareth Williams
Cadeirydd y Llywodraethwyr

Ni chynhaliwyd cyfarfod o dan Adran 94 o Ddeddf Safonau a Threfniadau Ysgolion (Cymru) 2013.

Derbyniwyd un cŵyn swyddogol yn ystod y flwyddyn academaidd hon.

Gweithgareddau'r Disgyblion

Yn Ysgol Y Castell, rydym yn falch iawn o'n darpariaeth gwricwlaidd, profiadau dysgu a chyfoethogrwydd y gweithgareddau allgyrsiol a gynigir. Mae'r holl brofiadau isod yn sicrhau darpariaeth eang a chytbwys ar gyfer ein plant. Mae'r profiadau oll yn cyfoethogi eu dysgu ac yn eu hysgogi i weithio hyd uchaf eu gallu; gyda mwynhad, dyfalbarhad ac at bwrpas. Nid oedd yn bosib i ddarparu'r profiadau arferol o dan amodau ac asesiadau risg y pandemig ond isod nodwyd y gweithgareddau a wnaeth mynd yn eu blaen.

Tymor yr Hydref

Yn sgil ein hasesiadau risg Covid-19, ni fu ymwelwyr ar y safle neu ymweliadau oddi ar y safle.

Serch hynny, trefnodd y staff profiadau dysgu byw ar safle'r ysgol e.e. gweithdy cyfansoddi cân gyda Mei Gwynedd dros Zoom.

Tymor y Gwanwyn

Yn sgil ein hasesiadau risg Covid-19, ni fu ymwelwyr ar y safle neu ymweliadau oddi ar y safle.

Ysgol gyfan	Dydd Miwsig Cymru - negeseuon a chyfarchion oddi wrth Osian Williams (Candelas); Caryl Parry Jones.
Y Cyfnod Sylfan	Sioe Rhithiol gyda Do-Rae-Mi i ddathlu Dydd Gŵyl Dewi
Blwyddyn 6	Gweithdai llenyddol â Clare Sayers (awdures)
Dysgwyr MAT (BI5 a 6)	Gweithdai llenyddol â Clare Sayers (awdures); Carys Glyn ac Anni Llŷn
Blwyddyn 1	Danfôn cardiau Dydd Gŵyl Dewi at gartref yr henoed 'Golwg yr Eglwys'
Ysgol gyfan	Sefydlu rhithgôr i ddathlu Dydd Gŵyl Dewi a danfon y fideo at gymuned yr ysgol a'r henoed lleol.
Blwyddyn 5	Sioe 'Yr Heriau Od - dathlu Cymreictod'

Tymor yr Haf

Blwyddyn 1 a 2	Plantasia, Abertawe
Blwyddyn 2	Gweithdy iaith a chân gyda Rhodri Harries
Blwyddyn 1	Gweithdy gyda'r awdures Carys Glynn
Blwyddyn 4	Gweithdy gyda Vicky Alexander (Siôp yr Enfys)
Blwyddyn 5	Gweithdy am wenyn
Blwyddyn 6	Gweithdy cynllunio graffig
Blwyddyn 4	Dawnsio Gwerin - Ffiliffest (rhithiol)
Blwyddyn 2	Fflimio gyda chriw rhaglen deledu 'A-hoi'
Ysgol gyfan	Dathliadau diwrnod cenedlaethol Sbarc a Seren (Siarter iaith)
Blwyddyn 5	Gweithdy ysgrifennu gyda'r awdur Meilyr Siôn
Ysgol gyfan	Dathliadau Wythnos Iach
Blwyddyn 5	Gweithdy 'Size of Wales'
Blwyddyn 6	Ymweliadau ag Ysgol Gyfun Cwm Rhymni
Blwyddyn 6	Gweithgareddau pontio gyda Chlwb 707
Blwyddyn 5	Gweithgareddau Antur Agored yng Nghwmcarn
Blwyddyn 6	Gweithgareddau Antur Agored yng Nghwmcarn



Cerddwn ymlaen â ffydd yn ein cân



Llwyddiannau a dathliadau

Tymor yr Hydref

Recordiwyd fideos 'Meet the Teacher' ar gyfer holl rieni'r ysgol fel eu bod yn cwrdd ag athrawon newydd eu plant a chlywed am ddisgwyliadau a threfniadau'r dosbarth.

Cynhaliwyd nosweithiau rhieni i drafod cynnydd a thargedau'r plant ADY dros Teams.

Dathlwyd gwaith Blwyddyn 5 a 6 trwy wasanaethau dosbarth a rannwyd trwy fideos gyda rhieni'r plant a'r holl ddosbarthiadau. Mae'r rhieni yn falch o'r cyfle i barhau yn ein haddoliadau.

Cyflwynodd staff y Derbyn 'noson ddarllen' i hyfforddi'r rhieni am weithgareddau darllen yn eu dosbarthiadau trwy fideo.

Dathlwyd Gwasanaethau Cynhaeaf wrth i ddosbarthiadau unigol recordio cân i gyfrannu at fideo adrannol. Dyma'r lincs i chi fwynhau:

https://drive.google.com/file/d/1dEPzfSJdooKpTbynjRapewY6aY_yGk31/view?usp=sharing

https://drive.google.com/file/d/1jCIF3cBRT67GD9kzkr6zR7a9BZy_JPsc/view?usp=sharing

Trefnwyd gweithgareddau Plant Mewn Angen gan Gyngor yr Ysgol o dan arweiniad Mrs K. Roberts and Mrs. N. Brown.

Cynlluniwyd wythnos o weithgareddau Atal Hiliaeth (Dangos y Cerdyn Coch i Hiliaeth) gan ddysgwyr Blwyddyn 6, gyda phawb yn ymuno mewn diwrnod cyfan o hwyl i ddangos cefnogaeth iddynt yn ystod ein wythnos gwrth-fwlian.

Cynhelir cyfarfodydd misol gan Gyfeillion yr Ysgol i drefnu gweithgareddau cymunedol yr ysgol. Y tymor hwn, cynhaliwyd disgo Tân Gwylt llwyddiannus ym mhob dosbarth o dan amodau swigod diogel.

Tymor y Gwanwyn

Cynhaliwyd cyfarfodydd rhieni i drafod lles, cynnydd a thargedau'r disgyblion dros Teams.

Rhannwyd gwasanaethau wythnosol trwy fideos gyda'r plant a'u rhieni. Mae'r plant yn falch o'r cyfle i barhau yn ein haddoliadau a dathliadau Clod Arbennig.

Cynhaliwyd lluo o weithgareddau o bell i ddathlu Dydd Miwsig Cymru gyda'n teuluoedd. Roedd y plant wrth eu boddau yn canu eu hoff ganeuon Cymraeg a derbyn negeseuon gan fandiau enwog.

Dathlwyd Dydd Gŵyl Dewi wrth gynnal gweithgareddau Eisteddfodol am wythnos. Hefyd, recordiwyd cân gan rithgôr yr ysgol. Dyma'r linc i chi fwynhau:

<https://drive.google.com/file/d/1xflyksW-ZmCEhvIIDmOiX9cypbg6-LQg/view?usp=sharing>

Fe wnaeth dysgwyr Blwyddyn 4 gyfweid â Y Gwir Anrh. Mark Drakeford AS, Prif Wenidog Cymru, gan ei holi am yr iaith a Chymru.



Tymor yr Haf

Cynhaliwyd gwasanaethau dosbarth yn ddigidol yn wythnosol gan ddanfôn fideos adref at y rhieni.

Enillodd yr ysgol wobwr Ysgol Awtistiaeth Gyfeillgar.

Darparwyd gwersi Addysg Rhyw a Pherthnasoedd Iach i ddysgwyr Blwyddyn 6.

Trefnwyd Wythnos Cerdded i'r Ysgol ond yn anffodus, dim ond y lleiafrif o'n dysgwyr wnaeth ymgymryd â'r her eleni.

Tynnwyd ffotograffau ysgol fesul dosbarth fel bod atgofion gan y plant o'r flwyddyn academaidd hon.

Trefnwyd Prosiect 'Hybu Llafar a Chreadigrwydd' ar draws y clwstwr o dan arweiniad Mr. Rhodri Harries. Mae'r ALI yn ariannu'r prosiect (£25,000 rhwng yr 11 o ysgolion

cynradd) yn sgil ei chydabyddiaeth am anghenion unigryw addysg Gymraeg a'r heriau personol i ail-gydio yn yr iaith.

Safodd pob plentyn (Blwyddyn 2 i 6) Aseidiadau Personol. Nid yw'r canlyniadau yn profi unrhywbeth i'r athrawon nad ydynt yn gwybod yn barod, ond maent wedi defnyddio ochr ddeidiagnostig yr aseidiadau i fwydo camau dysgu nesaf ar adroddiadau blynyddol y plant.

Cynhaliwyd cyfarfod rhithiol i rieni Meithrin newydd i'w croesawu i'r ysgol a rhannu gwybodaeth gychwynnol â hwy. Dim ond 44 o blant meithrin bydd gennym ym mis Medi - mae'r mwyafrif o ysgolion cyfrwng Cymraeg ar draws y sir wedi gweld gostyngiad sylweddol yn y galw am lefydd ym Medi 2021. Trefnwyd sesiynau ymweld â'r ysgol i'r rhai bach (a'u rhieni gyda'r hwyr) dros yr wythnosau nesaf o dan drefniadau'r asesiad risg.

Cynhaliwyd Wythnos Iechyd a Lles ar y 5ed o Orffennaf ble roedd cyfleoedd gan y dysgwyr i ymgymryd â llu o weithgareddau sy'n hyrwyddo lles. Roedd hyn yn cynnwys bore / prynhawn o fabolgampau fesul dosbarth, ond yn unol ag aseidiadu risg yr ysgol, nid oedd caniatad gan rieni i fynychu'r digwyddiad eleni.

Cynhaliwyd seremoni awyr agored gan Gorsedd y Beirdd Blwyddyn 5 yn i Gadeirio a Chroni beirdd ac awduron buddugol Blwyddyn 6. Nid oedd yr ysgol yn medru cynnal ei dathliadau arferol ar ddydd Gŵyl Dewi eleni, ond roedd y staff yn awyddus i sicrhau bod dysgwyr Blwyddyn 6 yn cael eu hanrhydeddu cyn iddynt ffarwelio â ni.

Gwybodaeth Presenoldeb 01.09.20 – 20.07.21

Yn sgil Covid-19 nid oedd disgwyl i ni adrodd ar bresenoldeb er hyn mae ein ffigyrau wedi nodi isod:

	Presenoldeb	Absenoldeb gyda chaniatad	Absenoldeb heb ganiatad
Targed ysgol 2019-2020	95.4%	4.6%	0%
Tymor yr Hydref 2020	85.03%	13.5%	1.47%
Tymor y Gwanwyn 2021 (** 8 diwrnod yn unig)	94.5%**	4.4%	1.1%
Tymor yr Haf 2021	94.59%	3.38%	2.03%

Yr ydym yn cyfathrebu'n rheolaidd â rhieni / gwarchodwyr i leihau'r nifer o absenoldebau heb ganiatad trwy negeseuon testun.

Mae mwyafrif o rieni a dysgwyr yn meddwl bod presenoldeb o 90% yn dda. Ydyn nhw'n gywir?

90% presenoldeb = ½ diwrnod ar goll yn wythnosol!

90% presenoldeb dros bum mlynedd yn yr ysgol = ½ blwyddyn ysgol ar goll!

Presenoldeb ar ddiwedd y flwyddyn	Diwrnodau a gollwyd o'r ysgol
100%	0
99.5%	1
97.4%	5
95%	10
90%	19
87%	24
85%	28
80%	38
75%	47

Rydym yn ymbil ar rieni i beidio â chymryd y plant allan o'r ysgol. Rydym hefyd yn deall yr anawsterau sydd wedi bodoli yn sgil y pandemic.

Mae pob gwers yn cyfrif!

ADOLYGIAD O WEITHRED Y LLYWODRAETHWYR AR GYFER Y FLWYDDYN ACADEMAIDD 2020/21

Yn union fel pob agwedd arall ar fywyd, cafodd y pandemig effaith sylweddol ar waith y corff llywodraethol. Nid oeddem yn gallu cwrdd yn ystod y cyfnod clo ac, yn gwbl briodol, ffocws pawb oedd iechyd a lles cymuned yr ysgol mewn cyfnod heriol a oedd yn newid yn gyson.

Mae'r adolygiad canlynol yn adlewyrchu'r ymgysylltiad llai a gafwyd gan y corff llywodraethol â'r ysgol. Roedd tarfu arthurolog ar y flwyddyn yn golygu nad oedd y llywodraethwyr yn gallu mynychu'r ysgol fel arfer, gan golli nifer o gyfleoedd i ymweld â'r ysgol i arsylwi ar weithgareddau o ddydd i ddydd. Fel arfer byddai'r rhain yn cynnwys teithiau dysgu, gwasanaethau, cyfarfodydd cyngor ysgol a gweithgareddau eraill sy'n agored i gymuned yr ysgol. Mae'r cyfleoedd hyn yn cynnig cipolwg gwych ar sut mae'r ysgol yn gweithredu. Maent yn hynod o werthfawr wrth lunio ein gweledigaeth strategol ar gyfer yr ysgol ac fe'u collwyd yn fawr yn 2020/21.

Ar ddechrau'r flwyddyn, ailbenodwyd Gareth Williams yn Gadeirydd a Rhian Jones fel Is-gadeirydd. Drwy'r flwyddyn cafwyd sawl newidiad i aelodaeth y corff. Croesawyd Valerie Noble fel Llywodraethwr Cymunedol, Gareth Herbert fel Rhiant Lywodraethwr ac Ann Lewis fel Llywodraethwr Awdurdod Lleol. Dywedasom hefyd ffarwelio'n annwyl â Mrs Eleri Betts, llywodraethwraig yr awdurdod lleol, a wasanaethodd y corff llywodraethu'n ddiwyd ac y bydd yn golled mawr i ni.

Dymunwn ddiolch yn fawr iawn i Eleri am ei chyfraniadau sylweddol i'w haelodaeth a chynnig croeso cynnes i bob aelod newydd.

Bydd y corff llywodraethu yn parhau i gefnogi'r ysgol wrth i ni lywio'r heriau parhaus a dymunwn ddiolch i holl staff yr ysgol am eu hymdrechion diflino i gefnogi iechyd a lles disgyblion a chynnal dysgu yn y cyfnod anoddaf, digynsail. Wrth i ni edrych ymlaen at 2021 / 2022, gyda gobaith o 'normalrwydd' mae'n bwysig myfyrio ar yr ymdrechion anhygoel a wnaethpwyd gan staff, gan fynd uwchben a thu hwnt i sicrhau bod bywyd diogel, cynnes a chroesawgar wrth i'r plant ddychwelyd i'r ysgol yn ystod amseroedd sydd dal i brofi'n anodd.

Adroddiad cynnydd ar Gynllun Datblygu'r Ysgol (2020 - 2021)

Blaenoriaeth 1: Cynnal a chodi safonau llafar fel eu bod yn cael effaith gadarnhaol ar safonau ysgrifenedig ar y deilliannau / lefelau uwch

Gweithredoedd ac Effaith

Wrth ddysgu o bell, mae bron bob un athro wedi llwyddo i weithredu arferion da ysgogi ysgrifennu. O ganlyniad, mae'r holl blant wedi parhau i wella eu gwaith gan ddilyn gweithdrefnau cadarn sgaffaldio dysgu, bwydo iaith lafar gyfoethog ac ymateb i adborth.

Yn sgil yr ail gyfnod clo mawr, nid oedd yn bosibl parhau â'r ymyrraethau a phrosiectau a ddatblygwyd trwy'r Grant ALPau. Serch hynny, mae grwpiau bach o ddisgyblion ADY wedi derbyn ymyrraethau cyson gan yr ALENCo a'r tîm ADYgyda ffocws ar sgiliau llafar.

Mae amserlenni gweithgareddau sgiliau sylfaenol e.e. llawysgrifen, Tric a Chlic / RWI dyddiol wedi parhau dros Teams gan y cynorthwywyr a'r athrawon. O ganlyniad, mae darpariaeth dda ar gyfer datblygu sgiliau sylfaenol wedi cael effaith dda ar safonau llawer o ddysgwyr (y rhai ag ymgysylltwyd).

Mae'r cyfleoedd i blant wrando ar storïau, rhigymau a cherddi yn rheolaidd er mwyn datblygu a chyfoethogi eu hiaith a'u dealltwriaeth o awduron a beirdd wedi parhau o bell. Datgana llawer o blant a rhieni eu bod wedi elwa o glywed yr iaith Gymraeg yn ddyddiol.

Mae darpariaeth Tric a Chlic wedi gwella'n sylweddol wrth i'r staff atodol recordio llyfrau Tric a Chlic a llyfrau darllen syml a'u harbed yn ganolig fel bod mynediad gan bob un plentyn adref. O ganlyniad, mae sgiliau llythrennedd llawer o blant YCS wedi gwella'n llwyddiannus wrth iddynt ddygu o bell.

Er gwaethaf yr heriau, mae'r ysgol wedi llwyddo i barhau yn ei darpariaeth o groesawu ymwelwyr ar lein i ysgogi ac ysbrydoli'r plant yn greadigol. Datgana llawer o'r dysgwyr eu bod yn mwynhau'r sesiynau yma, yn enwedig y dysgwyr MAT sy'n ffynnu trwy weithdai ysgrifennu creadigol.

Prif amcan y tymor yr haf oedd ail-ymgysylltu'r Gymraeg yn dilyn y cyfnodau clo parhaus a dosbarthiadau'n hunan-ynysu. Mae sesiynau trafod dyddiol, tasgau llafar, tasgau drama a chreadigol wedi bod yn ganolbwynt i ddarpariaeth yr ysgol.

Mae mwyafrif y disgyblion wedi ail-ymgysylltu â'r iaith yn yr ystafell ddosbarth, er bod angen mynd i'r afael â'r defnydd o fratiath, patrymau iaith anghywir a chwarae cymdeithasol trwy gyfrwng y Saesneg. Mae'r ysgol wedi darparu cyfleoedd i'r plant ddefnyddio eu hiaith lafar yn anffurfiol trwy gemau iard dan arweiniad oedolion, caneuon, rapiau a rhigymau, tasgau â ffocws ar lafar a chanmoliaeth gyson.

Y ffordd ymlaen (CDY 2021-2022)

Ail-ymgysylltu â'r prosiectau creadigol trwy gyllid ALP arfaethedig gan symud y dysgu ymlaen o ddangosyddion asesu.

Sefydlu prosiect clwstwr (yn canolbwyntio ar ddisgyblion y Derbyn cyfredol) yn seiliedig ar ddatblygu sgiliau llafar a chreadigrwydd o dan arweinyddiaeth Mr Rhodri Harries. Ariannwyd y prosiect hwn gan yr ALI mewn cydnabyddiaeth am y sefyllfa unigryw y mae ysgolion cyfrwng Cymru yn ei hwynebu wrth ail-ymgysylltu â'r iaith.

Rhannu cynllun sy'n nodi disgwyliadau clir yr Arweinwyr Llythrennedd a'u gweithredu trwy'r ysgol.

Sicrhau fod darpariaeth gadarn yr ysgol yn parhau i godi safonau llafar.

- Monitro effeithiolrwydd y ddarpariaeth yn dymhorol trwy:
 - gwrandao ar ddysgwyr
 - taith ddysgu - sesiwn sgiliau sylfaenol
 - craffu ar gynlluniau a llyfrau

Blaenoriaeth 2: Mireinio darpariaeth lles ar gyfer disgyblion a staff yr ysgol, yn enwedig wrth ddychwelyd i'r ysgol o dan amodau Covid-19.

Gweithredoedd ac effaith

Yn dilyn hyfforddiant, cynlluniwyd ac addysgywd gwersi lles yn wythnosol sy'n cwrdd ag anghenion llawer iawn o ddysgwyr. O ganlyniad, maent wedi ymgartrefu yn ôl i fywyd ysgol ac yn barod i ddysgu.

Mae pob un disgybl bregus sydd ag anghenion cymdeithasol, emosiynol ac ymddygiad, wedi'u cydnabod ar draws yr ysgol ac mae pob un ohonynt yn derbyn ymyrraeth effeithiol gan arbenigwyr Human Givens a Thrive yn wythnosol. O ganlyniad, mae rhan fwyaf o'r dysgwyr bregus wedi setlo'n dda yn ystod y cyfnod digynsail hwn ac yn fodlon trafod eu teimladau a'u heriau yn agored.

Llwyddodd pob athro/wes i greu CAU/CCU ar gyfer disgyblion ADY trwy ddefnyddio'r system tracio EDUKEY. O ganlyniad, mae'r ysgol yn tracio cynnydd pob disgybl ar y cofrestr ADY yn erbyn eu targedau unigol ac effeitholrwydd yr ymyrraethau'n effeithiol.

Cynaliwyd cyfarfodydd CAU / CCU ar-lein trwy Microsoft Teams gyda'r mwyafrif o rieni. Felly, mae'r mwyafrif o ddysgwyr bregus a'u rhieni yn deall eu targedau ac yn medru darparu cymorth yn y cartref.

Mae'r lleiafrif o ddysgwyr yn derbyn ymyrraeth COMIT yn y Cyfnod Sylfaen gan gynorthwyyr. Er hyn, mae angen monitro a gwerthuso'r ymyrraethau er mwyn rhannu arfer dda ar draws yr ysgol.

Mae pob aelod o staff yn hyderus wrth gwblhau asesiadau Thrive. Yn ogystal, maent yn cynllunio gweithgareddau lles buddiol yn wythnosol gan ddefnyddio deilliannau'r asesiadau Thrive.

Mae gan y rhan fwyaf o staff a llywodraethwyr ddealltwriaeth dda am y ddeddf newydd ADY trwy hyfforddiant a chynghor gan yr ALENCo. Mae ganddynt wybodaeth ddiweddaraf gan Lywodraeth Cymru am Gynlluniau Datblygu Unigol (IDP), proffiliau un dudalen a darpariaeth gyffredinol. O ganlyniad, mae pob athro / athrawes yn cymryd cyfrifoldeb dros ddarparu addysg a chefnogaeth effeithiol i blant ADY a'r llywodraethwr yn ymwybodol sut bydd y tîm ADY yn arwain y ddarpariaeth yma ar draws yr ysgol.

Er bod ein dysgwyr ADY yn derbyn addysg o bell, mae sesiynau ymyrraeth ieithyddol wythnosol wedi parhau. O ganlyniad, mae llawer o ddysgwyr ADY wedi gwneud cynnydd da yn erbyn eu targedau.

Mae'r ysgol yn cydnabod bod ymgysylltiad plant bregus i'r sesiynau dysgu o bell yn is na gweddill yr ysgol. O ganlyniad, mae wedi trefnu sesiynau ymyrraeth lles ddigidol i blant bregus yn wythnosol. Yn ogystal, mae'r ALENCo yn cynnal darpariaeth unigryw i blant bregus gyda phrif bwrpas o rannu gweithgareddau lles, gemau a gweithgareddau hwyliog yn ddyddiol. Er bod yr ALENCo yn ceisio cysylltu gyda theuluoedd penodol yn gyson, dim ond hanner y dysgwyr bregus sy'n ymgysylltu gyda'r sesiynau yma. Er hyn, mae'r ysgol yn llwyddo i ganiatáu mynediad at addysg ar y safle i ddysgwyr bregus ar ddydd Gwener wrth iddynt fynychu'r hwb. O ganlyniad, mae llawer o blant bregus yn llwyddo i fynychu cyfarfodydd gyda'u hathrawon ac i gwblhau tasgau dysgu o bell.

Y ffordd ymlaen (CDY 2021-2022)

Parhau i rannu ein gweledigaeth ar gyfer ADY gyda holl gymuned yr ysgol.

Parhau i ddatblygu a chefnogi staff o ran y daith trawsnewid Deddfwriaeth newydd ADY.

Ail-gydio yn ymyrrathau/strategaethau ar lawr y dosbarth (Haen 3- Darpariaeth gyffredinol).

Hybu datblygiad cymdeithasol ac emosiynol a pherthnasoedd cadarnhaol.

Blaenoriaeth 3: Ymgorffori cwricwlwm unigryw'r ysgol ymhellach yn unol â'r pedwar diben craidd a'r MDaPh.

Gweithredoedd ac effaith

Mae'r daith o ran diwygio'r cwricwlwm wedi parhau er gwaethaf y sefyllfa digynsail eleni. Yn sicr, mae'r rhan fwyaf o staff wedi elwa'n fawr o'r ymchwil ar ddysgu cyfunol a wnaethpwyd 2 flynedd yn nôl wrth iddynt ddarparu dysgu cyfunol. Mae gwybodaeth a dealltwriaeth y staff o'r egwyddor addysgeg yma wedi cynyddu yn sylweddol.

Bu staff yn arwain sesiwn hyfforddiant Dysgu Cyfunol y GCA gan rannu eu harbenigedd am sut i oresgyn heriau dysgu o bell a monitro'r ddarpariaeth yn ystod y cyfnod clo. O ganlyniad, mae nifer helaeth o ysgolion cyfrwng Cymraeg y GCA wedi elwa o brofiadau'r ysgol. Mae hyn wedi ychwanegu at gyfraniad gwerthfawr yr ysgol fel YfSD at fireinio addysgu a dysgu ar draws y consortiwm.

Mae'r Arweinydd Proffesiynol yn parhau i ddarparu arweiniad ardderchog i'r ysgol gan fynychu cyfarfodydd clwstr ac yn bwydo negeseuon pwysig yn nol i'r UDRh a'r holl staff trwy drefnu ac arwain hyfforddiant defnyddiol iawn. O ganlyniad, mae ei gwybodaeth a dealltwriaeth o ddatblygiadau cwricwlaidd ac YfSD yn gyfoes ac yn arbenigol. Mae'n cynnig arweiniad rhagorol i holl staff yr ysgol wrth i ni symud tuag at gwricwlwm newydd o Fedi 2022. Mae effaith dda iawn ar safonau dysgu'r plant yn drawsgwricwlaidd

Mae pob aelod o staff yn cynllunio o fewn y 6 MDaPh gan dracio 'coverage' yn erbyn y disgrifiadau dysgu. Mae'r staff yn deal y pwysigrwydd o gadw'r 4 diben craidd yn ganolbwynt i bopeth maent yn cynllunio. Mae hyfforddiant wedi chwalu rhai o'r 'mythau' sy'n bodoli ynglŷn â'r cwricwlwm newydd a diwygio addysg yng Nghymru. O ganlyniad, mae ymwybyddiaeth gadarn a chyfredol gan y staff am y cwricwlwm a'r pwysigrwydd o gynllunio yn erbyn y 4 diben craidd. Mae'r broses gynnar o dracio

cynnwys er mwyn sicrhau ein bod yn darparu cwricwlwm eang i'n dysgwyr (sy'n osgoi ailadrodd profiadau) yn ei lle erbyn hyn. Mae hyder ein hathrawon wrth gynllunio yn erbyn y fframwaith newydd yma wedi cynyddu yn sylweddol ers dechrau'r flwyddyn yn sgil yr holl gyfleoedd DPP.

Rydym wedi cychwyn ar y broses o ddatblygu cwricwlwm ysgol gyfan unigryw gan fapio profiadau sy'n bwysig i'n plant. Mae'r gwaith yma yn adeiladu ar y gwaith a wnaethpwyd yn y clwstwr wrth ddatblygu themâu cyson. Rydym wedi personoli'r rhain gan sicrhau cysondeb yn y ddarpariaeth wrth i'r dysgwyr drosglwyddo o Flwyddyn 6 i 7 ar draws y clwstwr.

Mae cynlluniau gennym i godi statws y 4 diben craidd ymhellach o fewn yr ysgol gan ddatblygu dealltwriaeth holl rhanddeiliaid yr ysgol ohonynt. Mae'r PL wedi archebu arwyddion i osod o gwmpas yr ysgol sydd yn cynnwys cymeriadau i gyd-fynd gyda phob un o'r 4 diben. Gobeithiwn weld effaith hyn yn ystod y tymhorau nesaf wrth i ymwybyddiaeth a dealltwriaeth holl rhanddeiliaid yr ysgol o'r 4 diben craidd cynyddu.

Y ffordd ymlaen (CDY 2021-2022)

Erbyn Medi 2022, bydd angen ail-strwythuro'r ysgol i mewn i Gamau Cynnydd. Bydd hyn yn cynnwys penodi arweinwyr i bob un o'r camau cynnydd.

Manteisio ar arweiniad gan y Llywodraeth/GCA yn ogystal â gweithio ar y cyd o fewn y clwstwr er mwyn dechrau ar y broses o fapio sgiliau craidd penodol ar draws yr ysgol. Deallwn fod y cwricwlwm newydd yn un agored iawn sy'n rhoi rhyddid i ysgolion i gynllunio mewn ffordd hollol hyblyg gan roi profiadau dysgu dilys i'r disgyblion. Er hyn, rydym hefyd wedi trafod ac yn deall y pwysigrwydd o barhau i ddatblygu sgiliau craidd y plant.

Mae angen mwy o arweiniad ar sut i asesu cynnydd plant yn erbyn disgrifiadau dysgu'r cwricwlwm newydd.

Blaenoriaeth 4: Datblygu systemau gweithio o bell sy'n bwrpasol a chyson ar draws yr ysgol. (Argymhelliad 3 - Lledaenu'r arfer dda a rhagorol yn yr addysgu ar draws yr ysgol).

Gweithredoedd ac effaith

Erbyn hyn, mae darpariaeth yr ysgol wedi gwella'n sylweddol yn unol â Pholisi Dysgu Cyfunol gyda chyfuniad da iawn o sesiynau gwersi byw / anghydamserol (recordiad o fideos, clipiau sain a chyflawniadau) / tasgau parod / lles a chreadigol. Mae hyn yn sicrhau disgwyliadau clir a chysondeb ar draws yr ysgol. O ganlyniad, mae'r rhan fwyaf o ddysgwyr ar draws yr ysgol yn ymrwymo gyda boddhad i wersi dyddiol o bell gan gyflawni gwaith ysgrifenedig a chreadigol o safon da. Serch hynny, mae'r ysgol yn pryderu am safonau llafar Cymraeg y dysgwyr gan nad ydynt yn clywed nac yn cyfathrebu trwy'r iaith am y rhan helaeth o'r diwrnod.

Wrth i'r cyfnod clo barhau, mae ffocws yr ysgol wedi newid tuag at ddarparu addysgeg uchelgeisiol a phwrpasol. Mae arferion addysgeg da (megis gwahaniaethu, dysgu dilys, modelu a sgaffaldio'r dysgu) wedi trosglwyddo'n dda i weithdrefnau o bell ac yn gadarn yn eu lle. Mae gweithdrefnau arferol asesu ar gyfer dysgu a darparu adborth amserol (trwy ddefnydd o adnoddau digidol) yn cael effaith gadarnhaol o safonau ac ymgysylltiad y rhan fwyaf o ddysgwyr gan fesur eu cynnydd yn fyw a symud eu dysgu yn ei flaen.

Mae'r ddarpariaeth wyneb yn wyneb gan staff atodol i blant gweithwyr critegol a mwyaf bregus yn yr

hwb yn sicrhau gofal a chefnogaeth lles hanfodol iddynt. O ganlyniad, datgana'r plant dan sylw eu bod yn hapus i fynychu'r hwb ac yn teimlo'n ddiogel yna. Maent yn falch i gael y cyfle i ymuno yn y sesiynau dyddiol cydamserol ac anghydamserol gyda'u cyfoedion o bell fel eu bod yn parhau i ddysgu gyda'u athrawon a ffrindiau.

Mae sesiynau fideo gynadledda gyda ffocws ar les meddyliol a chorfforol (byw) yn apelio'n fawr at y plant. Yma cânt gyfle heb ei ail i drafod eu teimladau, dathlu eu llwyddiannau a chadw'n iach, boed yn gorfforol neu'n feddyliol. Felly, er nad ydynt yn hollol hapus i fod adref, eglura'r rhan fwyaf eu bod yn falch i fod mewn cyswllt rheolaidd gyda'u hathrawon a ffrindiau a'u bod dal i deimlo fel rhan werthfawr ac unigryw o gymuned yr ysgol.

Mae'r ALENCo a'r tîm ADY yn darparu sesiynau ymyrraeth i grwpiau bach o ddysgwyr ADY. Felly, mae'r ddarpariaeth arbenigol yn parhau, ond yn bwysicach oll, mae cyfle i wirio lles y dysgwyr bregus yma yn sicrhau eu diogelwch a'u hapusrwydd. Yn sgil y ffocws glir ar sgiliau sylfaenol a llafar, mae'r mwyafrif o'r dysgwyr yma yn parhau i wneud cynnydd da yn unol â'u targedau unigol.

Mae gwasanaethau clod a negeseuon o anogaeth wythnosol gan y Pennaeth yn dathlu llwyddiant cymuned yr ysgol ac yn sicrhau bod y mwyafrif o randdeilaid yn cadw mewn cyswllt â datblygiadau yn yr ysgol.

Mae defnydd effeithiol o arian ALP i dargedu sgiliau ac offer TGCh wedi gwella ymrwymiad llawer o ddysgwyr bregus ac wedi eu galluogi i gael mynediad dyddiol at waith arlein. Maent hefyd wedi gallu ymuno'n hyderus mewn sesiynau ymyrraeth / grwpiau bychain trwy Teams gan barhau i weithio ar eu targedau unigol. Serch hynny, nid yw'r ysgol wedi llwyddo i wireddu ei chynlluniau ar gyfer sesiynau llafar a drama / ymyrraeth ddwys 'dal i fyny' gyda'r plant lleiaf yn sgil yr ail glo.

Mae cyfathrebu gyda rhieni a'r dysgwyr wedi bod yn effeithiol gan ffurfio partneriaethau cadarn a chynhyrchiol. Dengys canlyniadau holiadur yr effaith sylweddol ar safonau dysgu ac addysgu, boddhad y dysgwyr, ymgysylltiad a pharodrwydd i gydweithio. Mae hyn wedi bod yn gryfder yr ail gyfnod clo.

Mae effaith sesiynau rhannu arferion yr ysgol trwy gyfarfodydd staff yn eithridaol. Mae arferion addysgeg gorau'r ysgol wedi trosglwyddo'n llwyr i'r ddarpariaeth o bell gan ffocysu ar godi safonau'r dysgwyr, yn enwedig wrth ysgrifennu yn y ddwy iaith a mathemateg. Mae'r ddarpariaeth ar draws y Meysydd Dysgu a Phrofiad wedi cryfhau wrth i'r cyfnod ddatblygu. O ganlyniad, mae safonau addysgu'n parhau i fod yn dda neu'n well yn y rhan fwyaf o wersi cydamserol ac anghydamserol. Rhaid nodi hefyd bod gan y rhieni ddealltwriaeth well o weithdrefnau gwahaniaethu, sgaffaldio'r dysgu, drafftio ac ymateb i adborth at waith yn sgil y cyfnod dysgu o bell. Yn sgil y profiadau uchod, mae'r ysgol wedi rhannu ei harferion da ar draws y consortiwm.

Camau Gweithredu Cynllun Datblygu Ysgol 2021 - 2022

Targed 1 – Ailgydio yn safonau uchel iaith, Llythrennedd a Chyfathrebu a'r feistrolaeth iaith fel eu bod yn cael effaith gadarnhaol ar sgiliau llafar yn y Gymraeg.

Targed 2 – Cydweithio â rhanddeiliaid yr ysgol wrth wreiddio newidiadau'r ddeddf ADY a'r agenda MAT er mwyn sicrhau'r effaith fwyaf ar les a chynnydd pob disgybl.

Targed 3 – Ymgorffori cwricwlwm unigryw'r ysgol yn llawn yn unol â'r pedwar diben craidd a'r MDaPh.

Glendid tai bach yr ysgol.

Cyflogir glanheuwyr trwy gytundeb gyda'r AL. Glanheuir y tai bach ddwywaith y dydd gan sicrhau cyflenwad digonol o bapur tŷ bach, sebon a dŵr poeth. Profir tymheredd y dŵr yn wythnosol gan y gofalwr. Cynhaliwyd arolygon glendid ar hap a datganwyd bod safonau glendid yn foddhaol.



Cerddwn ymlaen â ffydd yn ein cân



Datganiad Cyllidol

Cyllid Ysgol – Gwariant ac Incwm (Ebrill 2020 – Mawrth 2021)

Ardal o Wariant	Cyfanswm	Balans Cyffredinol
Costau Staffio	£1,333,877	
Costau Adeilad	£141,628	
Cyflenwadau a Gwasanaethau	£103,404	
Cynllun Datblygu Ysgol	£27,603	
Cytundeuau Lefel Gwasanaeth AALI	£36,681	
Cyfanswm o Wariant		£1,643,193
Incwm	£117,161	
Gwariant Net		£1,526,032

Cyfanswm Ariannu Ysgol (Ebrill 2020 – Mawrth 2021)

Cyllido	Cyfanswm	Balans Cyffredinol
Dyranriad Fformiwla Cyfanswm	£1,474,763	
Balans a gariwyd drosodd o'r flwyddyn flaenorol	£115,295	
Cyfanswn y Gyllideb		£1,590,058

Tymhorau Ysgol a Gwyliau 2021/2022

	O	I	Hanner Tymor
Tymor yr Hydref 2021	02.09.21	17.12.21	25.10.21 - 29.10.21
Tymor y Gwanwyn 2022	04.01.22	08.04.22	21.02.22 – 25.02.22
Tymor yr Haf 2022	25.04.22	22.07.22	30.05.22 – 03.06.22

Yn ogystal â hyn, bydd yr ysgol yn cau am **chwech** niwrnod arall ar gyfer hyfforddiant mewn swydd i'r staff. Cewch wybod am y rhain cyn gynted â phosib trwy neges destun ac ar wefan yr ysgol. Mae'r calendr hwn yn cwrdd â'r gofynion statudol o 195 o ddiwrnodau, gan gynnwys 189 gyda'r disgyblion yn bresennol a phum niwrnod ar gyfer hyfforddiant mewn swydd.



Amseroedd Ysgol

Yn unol â gofynion y Cwricwlwm Cenedlaethol, mae'n ofynnol i blant Y Cyfnod Sylfaen weithio am o leiaf 21.5 awr yr wythnos (ac eithrio amseroedd chwarae, gwasanaethau a chofrestri). Dylai disgyblion Cyfnod Allweddol 2 weithio am o leiaf 23.5 awr yr wythnos.

	Y Cyfnod Sylfaen	Cyfnod Allweddol 2
Dechrau ysgol	9.00 – 10.30 y.b.	9.00 – 10.45 y.b.
Toriad boreol	10.30 – 10.45 y.b.	10.50 – 11.05 y.b.
Cinio	12.00 – 1.15 y.p.	12.15 – 1.15 y.p.
Toriad prynhawn	2.35 – 2.45 y.p.	2.20 – 2.30 y.p.
Diwedd y dydd	3.30 y.p.	3.30 y.p.

D.S. Mae disgyblion oed **meithrin** anstatudol yn mynychu'r ysgol rhan amser:

Bore : 9:00 – 11:45

Prynhawn : 12:45 – 3:30

Mynediad i Ddisgyblion Anabledd

Mae croeso cynnes yn Ysgol y Castell i ddisgyblion gydag anghenion a galluoedd arbennig. Er mwyn sicrhau bod pob dysgwr yn cael mynediad cyfartal i'r cwricwlwm, bydd y CALU athrawon dosbarth, Pennaeth ac asiantaethau allanol yn cydweithio i ddarparu anghenion unigol y dysgwyr. Mae Polisiâu Cyfle Cyfartal ac Anghenion Dysgol Ychwanegol yn esbonio hyn yn fanwl.

Mae gan yr adeilad ei hun gyfyngiadau wrth ystyried mynediad i'r anabl. Mae ramp i'r brif adeilad, neuadd a dosbarthiadau allanol. Er bod gan yr ysgol ddau dŷ bach sy'n addas i'r anabl, mae mynediad i ambell ardal fewnol yn anodd tu hwnt.

Lle bo'n bosibl, gwneir trefniadau i gwrdd ag anghenion disgyblion ac ymwelwyr anabl.

Anghenion Addysgol Ychwanegol

Tra ein bod yn annog yr holl ddysgwyr yn Ysgol Y Castell i weithio tuag at eu llawn potensial, rydym yn cydnabod y bydd angen cymorth ychwanegol ar rai disgyblion ar adegau yn ystod eu gyrfaoedd ysgol.

Rydym yn cynnwys y disgyblion yma ar gofrestr Anghenion Addysgol Ychwanegol (ADY). Yna, mae ein Cydlynnydd Anghenion Arbennig (CLAAA) yn cynorthwyo'r athrawon dosbarth, y rhieni a'r dysgwyr i ysgrifennu sy'n gosod rhaglen waith unigol a phroffil un tudalen i'r disgyblion hyn:-

Cynllun Addysgol Unigol (CAU),

Cynllun Ymddygiad Unigol (CYU)

Cynllun Chwarae ar gyfer y pant ieuengaf

Hefyd, mae'r CLAAA (Mrs K. Field) yn cysylltu â rhieni, staff eraill, nyrs yr ysgol, therapydd laith a Llefaredd a'r Gwasanaeth Seicolegol. Derbynnir cyngor a chynhaliaeth gan yr ALI trwy Wasanaethau Cynhwysiad, megis therapydd galwedigaethol, cynhaliaeth ymddygiad a gwasanaeth clyw a golwg.

Mae angen cynhaliaeth ddwys 1:1 ar ambell ddisgybl; derbynia rhai ychydig o oriau o gefnogaeth, cefnogir eraill mewn gweithgareddau grŵp bach. Derbynia'r mwyafrif o ddisgyblion gymorth yn y dosbarthiadau, trwy weithgareddau gwahaniaethol a chymorth gan yr athrawon. Ysgol gynhwysol yw ein hysgol ni ac rydym yn croesawu dysgwyr gydag amrywiaeth eang o anghenion i mewn i'n dosbarthiadau. Mae pob disgybl yn cael ei gynnwys mewn gweithgareddau dyddiol yn yr ysgol a'r gymuned ehangach.

Darpariaeth MAT

Yn Ysgol Gynradd Gymraeg y Castell rydym yn cydnabod ac yn cefnogi anghenion y plant hynny sydd wedi'u nodi fel rhai mwy galluog a thalentog (MAT) yn unol â chanllawiau NACE mewn un neu fwy o feysydd dysgu.

Ein nod yw sicrhau bod plant unigol yn cael eu hannog i ddatblygu eu priodoleddau, eu sgiliau a'u potensial mewn amgylchedd dysgu sy'n croesawu cyfle cyfartal a darpariaeth rhagorol. Rydym hefyd wedi ymrwymo i nodi a diwallu anghenion y plant ifanc hyn mor gynnar â phosibl er mwyn eu galluogi i gyflawni eu potensial.

Yn anffodus, oherwydd yr amgylchiadau yn sgil Covid 19 nid ydym wedi gallu trefnu gweithgareddau cyfoethogi dros y flwyddyn diwethaf.

Yn y flwyddyn academaidd nesaf, rydym yn gobeithio gallu trefnu mwy o weithgareddau hwyliog a chyffrous i ddisgyblion MAT. Rydym yn parhau i weithio a datblygu ein darpariaeth MAT ac hefyd yn edrych i gydnabod gweithgareddau eraill y tu allan i'r ysgol y gallai disgyblion fod yn MAT e.e. clybiau chwaraeon, drama, y celfyddydau a cherddoriaeth.

Mae'r disgyblion MAT yn parhau i arwain y dysgu gan roi cyfleoedd gwych iddynt helpu eraill i wella eu sgiliau. Enghreifftiau gwych o hyn yw'r Prosiectau Ysgolion Creadigol a rôl Llysgenhadon Digidol, Arweinwyr Chwaraeon a Dreigiau'r Castell.

Ein nod yw sicrhau bod gan bob un o'n disgyblion fynediad i'r cwricwlwm a byddwn yn parhau i ddefnyddio ystod o fecanweithiau a gwasanaethau cymorth i gyflawni hyn.

Adnewyddir prospectws yr ysgol yn flynyddol a'i osod ar wefan yr ysgol.

Y Corff Llywodraethol

Mae'r Corff Llywodraethol yn gyfrifol am reolaeth effeithiol yr ysgol. Mae gennym ddau ar bymtheg o Lywodraethwyr (gan gynnwys y Pennaeth yn rhinwedd ei swydd). Fel arfer, gwasanaethant am bedair blynedd. Nodwyd cyfansoddiad presennol y Corff Llywodraethol isod.

Mrs Ruth Michard yw Clerc i'r Llywodraethwyr; gellir cysylltu â hi trwy Education Achievement Service, Tŷ Tredomen, Tredomen, Caerffili.

Enw	Math o Lywodraethwr	Cyfnod o Wasanaeth
Mr. Gareth Williams (Cadeirydd)	Cynrychiolydd AALI	10.02.20 – 09.02.24
Miss Rhian Jones (Is-gadeiryd)	Cynrychiolydd Cymunedol	30.03.17 – 29.03.21
Mrs Catrin O'Sullivan	Cynrychiolydd Cymunedol	29.01.20-28.01.24
Mrs Ann Lewis	Cynrychiolydd AALI	20.05.21 – 19.05.25
Miss Sara Davies	Cynrychiolydd AALI	22.01.21 – 21.02.25
Mrs Val Noble	Cynrychiolydd AALI	11.11.20 - 10.11.24
Mr. Chris Webb	Cynrychiolydd Cymunedol	14.03.20 - 23.09.24
Mr. Emyr Jones	Cynrychiolydd Cymunedol	04.11.19 – 03.11.23
Mr. Dean John	Cynrychiolydd Rhieni	19.11.18 – 20.11.22
Mr. Gareth Herbert	Cynrychiolydd Rhieni	25.11.20 - 24.11.24
Mrs. Kate Hall	Cynrychiolydd Rhieni	12.12.17– 11.12.21
Mrs. Helen Adams	Cynrychiolydd Rhieni	13.03.20 – 12.03.24
Mr. Philip Bowkett	Cynrychiolydd Rhieni	13.03.20 – 12.03.24
Mrs. Helen Nuttall	Pennaeth	01.09.09
Mr. Gareth Robinson	Cynrychiolydd Athrawon	04.07.19 – 03.07.23
Mr. Gareth Hughes	Cynrychiolydd Athrawon	01.09.17 – 31.08.25
Mrs. Mairwen Dainton	Cynrychiolydd Staff Atodol	01.09.18 – 31.08.22

Manylion Cyswllt

Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili – Awdurdod Addysg Lleol

Prif Swyddog Addysg

Mrs. K. Cole

Tŷ Penalltau,

Tredomen.

Ffon (01443 815588)

www.caerphilly.gov.uk

Manylion Ysgol

Cadeirydd y Llywodraethwyr: Mr Gareth Williams (trwy Ysgol Y Castell)

Pennaeth: Mrs H. Nuttall

Clerc i'r Llywodraethwyr: Mrs Ruth Michard

(Cysylltwch â Mrs Michard trwy swyddfeydd EAS, Tredomen)

Ysgol Gynradd Gymraeg Y Castell

Heol Cilgant

Caerffili

CF83 1WH

Ffon (029 20864790)

Facs (029 20867220)

E-Bost: yycpa@caerphilly.gov.uk



Cerddwn ymlaen â ffydd yn ein cân

